

# Ysgrifennu Llythyrau Perswadiol

Yn dilyn eich gweithdy ar Lygredd y Môr gyda Dŵr Cymru, neu eich ymchwil personol, ysgrifennwch llythyr perswadiol at bennaeth eich ysgol yn ei (h)annog i ystyried defnyddio llai o blastig yn eich ysgol.

## Meddyliwch faint o blastig a ddefnyddir yn yr ysgol. Beth sy'n digwydd iddo?

Gallai'ch llythyr gynnwys paragraffau am...

- Ble mae ein plastig yn mynd yn y pen draw (safleoedd tirlenwi, y môr, stumogau anifeidiad)
- Sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn defnyddio potel ddŵr aml dro
- Cyfleusterau ailgylchu yn yr ysgol (Ile gallwch roi plastig untro?)
- Defnyddio gwellt yfed yn y ffreutur
- Unrhyw broblemau eraill rydych wedi sylwi arnynt yn yr ysgol

## Beth i'w gynnwys wrth weithio ar eich llythyr – Camau at Lwyddiant:

Rwyf wedi...

- agor â chyflwyniad clir yn nodi pwrpas fy llythyr
- defnyddio tystiolaeth i gefnogi fy safbwynt
- defnyddio gormodiaith i bereswadio fy narllenwyr
- cynnwys o leiaf un cwestiwn rhethregol
- defnyddio geiriau cysylltiol addas (o ganlyniad, felly, yn ogystal)
- defnyddio iaith â'r bwriad o gynhyrfu
- defnyddio ailadrodd i gryfhau fy nadl
- defnyddio geiriau argyhoeddiadol / gweniaith
- defnyddio paragraffau
- defnyddio gwahanol atalnodau



# Ysgrifennu Llythyrau Perswadiol

## Geiriau cysylltiol amser

Yn gyntaf, yn olaf, ar hyn o bryd, yn y dyfodol, o'r blaen, yn awr, nesaf...

## Geiriau cysylltiol achosol

O ganlyniad, fodd bynnag, felly, er hynny, serch hynny, er bod, er gwaethaf popeth...

## Geiriau cysylltiol cymharol

Yn ogystal, ar ben hynny, yn lle hynny, ar y llaw arall, hefyd, er hynny, mewn gwirionedd, yn hytrach na...

